# Canlyniadau Ymgynghoriad Ysgolion 21 Ganrif Canlyniad

# Abergele

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

## Ydych chi'n meddwl fod angen gwelliannau i adeiladau?

77% YDW

## Pa mor bell o safle presennol yr ysgol fyddech chi'n barod i deithio i unrhyw ysgol newydd?

| | |
|---|---|
| 0 – 0.5 filltir | 48 |
| 0.5 – 1 filltir | 92 |
| 1 – 2 milltir | 81 |
| 2 - 3 milltir | 33 |
| 3+ milltir | 35 |

## O ran newid trefniadaeth ysgolion, pa un o'r canlynol hoffech chi edrych yn fwy manwl arnynt?



| | |
|---|---|
| 104 | Uno ysgolion Iau a Babanod cyfrwng Saesneg |
| 89 | Gwneud dim – cadw popeth (strwythur presennol) fel y mae |
| 50 | Uno ysgolion Iau, Babanod ac Uwchradd Saesneg (Ysgol 3-19) |
| 30 | Uno cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg (Creuddyn) i greu (Ysgol Cyfrwng Cymraeg 3-19 oed), ond yn aros ar yr un safleoedd |
| 23 | Arall (nodwch) |

## Pa ysgol ydych chi'n gysylltiedig â hi?

| | |
|---|---|
| Ysgol Glan Gele | 74 |
| Ysgol Glan Morfa | 94 |
| Ysgol St Elfod | 96 |
| Ysgol St George | 7 |
| Ysgol Emrys ap Iwan | 79 |
| Creuddyn | 6 |
| Dim | 4 |

## Beth hoffech chi ei weld?

| | |
|---|---|
| Adeilad Ysgol Gynradd Gymraeg newydd o fewn 1 milltir | 81 |
| Adnewyddu / Estyniad i adeiladau'r Ysgol Iau cyfrwng Saesneg presennol | 57 |
| Adnewyddu / Estyniad i adeiladau'r Ysgol Iau cyfrwng Saesneg presennol | 52 |
| Adnewyddu / Estyniad i adeiladau'r Ysgol Iau cyfrwng Saesneg presennol | 52 |
| Ysgol 3-19 newydd o fewn 1 milltir i'r ysgolion presennol | 48 |
| Adnewyddu / Estyniad i adeiladau'r Ysgol Fabanod cyfrwng Saesneg bresennol | 40 |
| Adeilad Ysgol Gynradd Saesneg newydd ar y safle presennol | 38 |
| Adeilad Ysgol Gynradd Gymraeg newydd o fewn 1 milltir | 38 |
| Adeilad Ysgol Gynradd Gymraeg newydd ar y safle presennol | 29 |
| Gwneud dim – cadw popeth (strwythur presennol) fel y mae | 28 |
| 2 ysgol Gynradd newydd (Cymraeg a Saesneg) ar yr un safle yn rhannu cyfleusterau | 26 |
| Adeilad newydd ar gyfer Glan Morfa, fel y gall yr ysgolion Saesneg uno a defnyddio'r tir hwnnw. | 22 |

## Pa wasanaethau 'ychwanegol' sy'n bwysig i chi mewn ysgol?

| | |
|---|---|
| Mannau Parcio / Gollwng | 182 |
| Clybiau Ar Ôl Ysgol | 180 |
| Clwb Brecwast | 179 |
| Darpariaeth Dysgu Yn Yr Awyr Agored | 161 |
| Cyfleusterau Chwaraeon / Hamdden | 151 |
| Darpariaeth ADY | 119 |
| Cyn Ysgol / Cylch | 94 |
| Cysylltiadau cludiant cyhoeddus | 75 |
| Defnydd cymunedol | 50 |
| Arall | 9 |

## Pwy gymerodd ran?

| | |
|---|---|
| Disgyblion | 7 |
| Rhieni/ gwarcheidwaid | 207 |
| Staff | 40 |
| Llywodraethwr | 8 |
| Cyhoedd | 21 |
| Cynghorydd | 2 |
| Arall | 9 |

## A oes angen gwella adeilad yn eich ysgol bresennol?
## Rhai ymatebion

Dylai fod perthynas waith agos rhwng cynradd ac uwchradd gydag adnoddau a rennir i wella'r pontio wedi ei leoli ar yr un safle neu gerllaw.

Mae angen i chi uno'r babanod/iau cyfrwng Saesneg, adeiladu ysgol gynradd Gymraeg ar safle arall yn y dref gan felly ryddhau'r safle presennol i ddatblygu'r ddarpariaeth Saesneg gyfun. Mae angen i chi ystyried y gallai newidiadau yn y dref gael effaith ar ysgolion llai fel Llan Sain Siôr - yma gallai gwelliannau bychan fel toiled mewnol wneud gwahaniaeth mawr. Mae'n bwysig cynnal cynnig cytbwys yn y dref sy'n cynnwys cyfrwng Cymraeg a Saesneg a darpariaeth eglwysig.

Dydw i ddim yn teimlo fod budd i ysgolion 3-19 oed. Cynigwyd hyn yn Wrecsam ble rwy'n dysgu ychydig flynyddoedd yn ôl ac roedd gwrthwynebiad eang. Mae'n golygu bod rhai ystyried cymaint o bethau, sut ydych chi'n cadw'r gwahanol oedrannau hyn ar wahân? Sut ydych chi'n rheoli staffio pan mae blynyddoedd llawn a gwacach. Sut ydych chi'n rheoli maint dosbarthiadau, amserlenni? Ymdopi â chinio / egwyliau i'r holl ddisgyblion? Byddai angen i'r safle fod yn fawr, a oes lle ar gyfer hyn. Byddai goblygiadau staffio.

Y budd fyddai cael cwricwlwm parhaus, polisïau a gweithdrefnau ar y cyd, rhannu arbenigedd rhwng cyfnodau addysgol, gwell parhad mewn agweddau bugeiliol ac agweddau eraill o addysg.

Er mwyn cyrraedd targed llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg, rwy'n credu fod angen ysgol gynradd arall Cymraeg iaith 1af i gefnogi hyn y gymuned.

Yr opsiwn hwn sy'n gwneud y synnwyr mwyaf ar gyfer hyrwyddo newidiadau'r cwricwlwm newydd. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn mynd o St Elfod i Emrys. Mae adeiladau'r ysgol mewn ardal sydd wedi'i llenwi'n ddwys gydag isadeiledd gwael a datrysiadau cyfyngedig. Drwy godi ysgol newydd ar gyrion Abergele byddai modd datblygu'r plotiau hyn ar gyfer anghenion o ran tai.

Mae'r sefyllfa bresennol o gael 3 ysgol gynradd ar un safle yn achosi problemau gyrru difrifol a pheryglus yn ardal yr ysgol. Byddai'n gwneud synnwyr i ddefnyddio'r tir presennol at ddefnydd y ddwy ysgol Saesneg sy'n cynyddu mewn maint a symud yr ysgol Gymraeg oddi ar y safle.

Nid yw'r safle 3 ysgol presennol gyferbyn ag ysgol uwchradd Emrys ap Iwan yn briodol wrth edrych i'r dyfodol oherwydd tagfeydd a diogelwch plant cyn ac ar ôl yr ysgol. Mae safle presennol Ysgol Glan Morfa yn dibynnu ar ystafelloedd dosbarth dros dro ac nid yw felly'n addas at ei ddiben. Byddai adeiladu ar y safle hwn yn golygu colli ardal awyr agored cyfyngedig sydd ei angen ar gyfer Iechyd a Lles plant. Mae'r Cylch Meithrin a Chlwb y Morfa hefyd yn cyfrannu at atyniad yr ysgol cyfrwng Cymraeg hon i rieni, ac mae'n rhaid cynnal yr rhain ar yr un safle â'r ysgol.

Mae angen uned arbenigol anhwylderau yn y sbectrwm awtistig ym mhob ysgol yn y gymuned

Rhowch y gorau i gael cwmnïau allanol i wneud gwaith cynnal a chadw yn eich ysgolion a chyflogi cymerwyr gofal medrus sy'n gallu gweithio yn fewnol ac yn ei dro, gostwng costau'n ddirfawr. Tîm cynnal a chadw sy'n gweithio ar draws amryw o safleoedd fyddai'n fwyaf buddiol yn ariannol.

Mae Glan Morfa yn ysgol anhygoel nad yw'n gallu datblygu ar y safle presennol. Ar hyn o bryd, nid oes ganddynt eu cegin weithredol eu hunain a dim llawer o ddarpariaeth chwarae / addysg awyr agored. Rwy'n teimlo y byddai pob ysgol yn elwa o symud Glan Morfa i safle newydd. Rwyf hefyd yn credu y byddai hyn yn lliniaru rhai o'r problemau traffig.

Rwy'n credu ei bod yn gwneud synnwyr i rannu adnoddau lle bo modd

Rwy'n teimlo bod ymddangosiad Emrys ap Iwan yn hen ffasiwn iawn ac yn teimlo bod dirfawr angen ei adnewyddu. Mae'n biti gan fod yr ysgol yn dda iawn fel arall.

Estyniad neu ysgol newydd, efallai o fewn 1 milltir

## Ymatebion eraill

Rwy'n teimlo, yn bersonol, fel athro a rhiant fy hun, fy mod yn anghytuno'n llwyr â'r cynnig o uno ysgolion a chreu un ysgol fawr iawn. Dewisais ysgol bentref fechan i fy mhlentyn fy hun ac rwy'n credu ei bod yn bwysig rhoi dewis i rieni. Penderfynais beidio ag anfon fy mhlentyn i'r ysgol leol yn ein pentref gan fy mod yn teimlo ei bod yn rhy fawr ac roeddwn eisiau ysgol lai, gydag ymdeimlad teuluol i fy mhlentyn.

Yn bersonol, rwy'n credu mai cael ysgol Gymraeg newydd fyddai'r canlyniad gorau. Mae'r traffig yn beryglus i'r 3 ysgol gyda'i gilydd. Nid oes digon o blant ac oedolion yn siarad Cymraeg yn Abergele. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd yn ysgol Glan Morfa, felly dydi rhieni ddim yn cael dewis. Yna, byddai modd i Glan Gele a St Elfod ddefnyddio tir Glan Morfa ar gyfer parcio a lliniaru traffig o fewn y strydoedd gerllaw ac o amgylch yr ysgol.

Byddai lle parcio neu fan gollwng yn wych mewn byd delfrydol. Mae'r safle presennol gyda 3 ysgol yn brysur iawn ac rwy'n credu ei fod yn beryglus gan nad oes cyfleusterau ac mae rhieni'n cymryd risgiau gyda'u parcio.

Mae cyfleusterau Cymraeg ar gyfer cymuned Abergele yn wael iawn yn arbennig o'u cymharu â'r cyfleusterau cyfrwng Saesneg.

Mae'r amodau presennol ar y ffyrdd yn beryglus. Mae damweiniau'n cael eu methu o drwch blewyn bob dydd gyda cheir a cherbydau mwy o faint yn mynd dros ymylau palmentydd ar Ffordd y Morfa a Faenol Avenue. Mae angen iddi fod yn system unffordd. Hefyd, mae baw cŵn rheolaidd ar balmentydd ger yr ysgol yn berygl iechyd a diogelwch.

Dydw i ddim yn teimlo fod ysgolion presennol Abergele yn gwneud defnydd o ofod. Dydi'r Ysgol Gymraeg ddim hanner digon mawr. Dewisais anfon fy merch i ysgol cyfrwng Cymraeg er mai ein iaith gyntaf yw Saesneg. Dydw i ddim yn teimlo bod yr ysgol Saesneg na Chymraeg yn ddigon mawr ar gyfer y nifer o blant sy'n byw yn yr ardal ar hyn o bryd nac wrth edrych i'r dyfodol.

Mae 4 ysgol o fewn 100m i'w gilydd, mae trafferthion parcio a thraffig difrifol ar adegau ysgol.

Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig iawn i gynnal y Gymraeg a bod poblogaeth yr ysgol Gymraeg wedi codi'n aruthrol dros y 10 mlynedd ddiwethaf sy'n adlewyrchu'r ffaith fod pobl leol Abergele yn cydweld. Rwy'n teimlo nad yw' ysgol gynradd Gymraeg bresennol yn ddigon mawr i barhau â'r twf hwn.

Mae problem ddifrifol gyda chyfleusterau toiledau yn Ysgol y Creuddyn ar hyn o bryd. Nid oes modd defnyddio nifer o'r blociau toiledau ac mae safon y toiledau y gellir eu defnyddio o safon isel iawn. O safbwynt materion presennol yn Abergele, mae'r syniad o gael adeilad sy'n addas ar gyfer addysg 3-19 yn swnio'n erchyll. Dewisais i'm plant gael eu haddysgu tu allan i Abergele er fy mod yn byw yma oherwydd maint yr ysgolion presennol. Efallai y byddai ymestyn yr ysgolion presennol ac uno'r ysgol iau a babanod yn fuddiol.

Mae Ysgol Emrys Ap Iwan yn ysgol ffantastig gydag athrawon a staff sy'n ysbrydoli. Biti na wnes i ei ddarganfod yn gynharach.

Dewisais Ysgol Glan Gele i fy mab oherwydd ei ddarpariaeth awyr agored ardderchog, dydw i ddim eisiau colli hyn. Mae darpariaeth ADY yn eithriadol o bwysig i fy mhlentyn a'r holl fyfyrwyr/staff eraill yn yr ysgol. Mae gan fy mab awtistiaeth ond yn aml nid yw'r ysgol yn gallu diwallu ei anghenion oherwydd gorlenwi, staff dan bwysau a diffyg adnoddau. Ni fyddai fy mab yn gallu mynd i'r ysgol hon os na byddai clwb brecwast gan fod yn rhaid i mi deithio i'r gwaith felly mae'n rhaid i mi adael y cartref yn fuan.

Gyda'r holl dai newydd yn cael eu hadeiladu yn Abergele. Rwy'n credu y dylai ffordd yr ysgol fod ar gyfer cerddwyr yn unig gan fod nifer y ceir, faniau ac ati ar y ffordd yn afresymol. Rwy'n credu y dylai'r ffyrdd cyfagos fod yn system unffordd.

Byddai clwb ar ôl ysgol yn Ysgol Glan Gele yn werthfawr gan fod yn rhaid i fy mhlentyn deithio cryn bellter i'r feithrinfa ar ôl ysgol ar hyn o bryd. Mae clwb brecwast Glan Gele yn ardderchog ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Diolch / Thank you

Mae angen maes parcio staff mwy o faint ar gyfer pob un o'r 3 ysgol gan nad yw rhieni neu blant anabl yn medru parcio yno gan fod parcio dwbl.

Rwy'n hapus gyda'r ffordd mae'r ysgol ar hyn o bryd.

Mae angen gosod uchafswm ar faint y dosbarthiadau. Dim cyfuniad o ddosbarthiadau e.e. derbyn a blwyddyn 1. Adeiladwch ysgol Gymraeg neu Saesneg newydd a chadwch y lleill ar y safle presennol. Peidiwch â gwahanu'r ysgolion babanod ac iau

Byddwn i wir yn hoffi gweld Glan Gele yn dod yn ysgol lle mae'r babanod a'r iau wedi cyfuno.

Ydych chi wedi ystyried fod y diffyg ymgysylltu yn sgil y ffaith nad oes gan bobl ffydd eich bod yn gwrando ar eu barn. Mae pobl wedi bod yn dweud dro ar ôl tro bod ysgolion Abergele yn llawn a dydych chi heb wrando – gan hyd yn oed ddweud nad ydyn nhw'n gwneud. Cymerodd fisoedd i drefnu dosbarth symudol ar gyfer Glan Gele er y dywedwyd wrthych ymlaen llaw bod angen lle ac mae'n edrych yn debyg y bydd yr un fath yn digwydd ym mis Medi!

Rwy'n meddwl y byddai'n ardderchog pe bai St Elfod yn uno â Glan Gele ac yn dechrau cynnig addysg o'r un safon â Glan Gele. Wedyn, gallent ddarparu cysondeb drwy addysg ysgol gynradd y plant. Hefyd, mae angen edrych ar unwaith ar y parcio ar gyfer Elfod/Gele/Glan Morfa!!!

Os oes angen adeilad newydd, byddai wir angen iddo fod yn 2 lawr. Gyda man gollwng da.

Mae ysgolion Abergele yn brin o le, mae angen ysgolion newydd yn ogystal â dalgylch. Nid yw'r ysgolion wedi eu diweddaru yn yr 20+ blynedd diweddaf i ddarparu ar gyfer y dref a'r tai newydd. Mae parcio yn fater gwirioneddol.

Does gen i ddim barn gref ar y ffordd ymlaen ond rwy'n awyddus i ddysgu mwy am y dewisiadau.

Mae Ysgol St Elfod yn ysgol CA 2/3 anhygoel. Mae staff addysgu'n anhygoel, a chyfleusterau'r ysgol yn dda. Ond mae bob amser lle i wella. Mae llefydd parcio'n gwbl annigonol, ac rwy'n ei chael yn anodd i fynd â fy mhlant i'r ysgol yn briodol ac nid wyf bob amser ar amser oherwydd hyn.

Ystyried symud Coleg Llandrillo ymhellach allan o Abergele a defnyddio'r gofod hwnnw ar gyfer ysgol newydd Gymraeg a Saesneg.

Mae Glan Gele yn fy marn i'n arddangos yn union yr hyn sydd ei angen ar ein plant mewn addysg. Yn fy marn i mae hyn ar goll yn Elfod. Nid oes amheuaeth y byddai uno'r babanod a'r cynradd yn fuddiol i'r disgyblion.

Eisoes yn teithio 3+ milltir. Rwy'n cael trafferth i fynd â'm plentyn i'r ysgol gan nad oes unrhyw ddarpariaeth cludiant tan y lefel ysgol uwchradd, hyd yn oed wedyn, nid yw'r cludiant ar gael yn yr ardal rwy'n byw ynddi, ac mae'n rhaid i ni ddefnyddio cludiant cyhoeddus annibynadwy sy'n effeithio ar bresenoldeb fy mhlant. Mae'r ysgolion hyn yn rhagorol, fyddwn i ddim eisiau i fy mhlant symud i ysgolion newydd yn yr ardal.

Mae diogelwch ein plant yn hollbwysig!!! Gyda hyn bydd yn rhaid i ni ei osod yn uchel ar ein rhestr. Felly mae cael 3 ysgol fabanod gyda'i gilydd heb ddim parcio (dim llawer bellach) yn achosi problem fawr o ran diogelwch.

Mae gan un feithrinfa yng Nghonwy anifail fferm a hefyd pats llysiau lle mae plant yn gofalu amdanynt. Rwy'n credu y dylai ysgolion geisio buddsoddi mwy mewn addysgu pwysigrwydd twf naturiol drwy gael profiad ymarferol/ swyddi.

Nid oes gan Ysgol Glan Morfa Glwb Brecwast a byddwn yn hoffi hyn. Mae'n bwysid i ni gyda gofal plant. Mae'r sefyllfa barcio bresennol yn ddifrifol, ac mae'n rhaid i ni barcio ymhell o'r ysgol, mae angen i hyn newid.

Dim byd i'w ychwanegu. Mae Ysgol Glan Morfa ar hyn o bryd yn darparu popeth sydd ei angen arnom ar gyfer ein plentyn. Mae Clwb y Morfa yn cynnig gofal ardderchog yn y boreau ac ar ôl ysgol. Mae lleoliad yr ysgol yn berffaith i'n hanghenion felly nid oes unrhyw reswm i newid.

Roedd cynnig i gael ysgolion 3-19 yn CBS Wrecsam ond gwelodd y cyngor yn fuan nad oes rheswm da dros ei gael. O ran logisteg, sut ydych chi'n darparu ar gyfer yr holl fyfyrwyr ar un safle? Ble byddech chi'n lleoli ysgol 3-19 naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg, pan fod yr ysgol leol yn llawn a thir yn anodd dod o hyd iddo. Ni fyddai'r undebau'n cefnogi fframwaith 3-19.

Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig buddsoddi mewn ysgolion Cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chynnal a hyd yn oed ei chynyddu erbyn 2050. Nid wyf yn siarad Cymraeg yn bersonol ond eisiau i fy mhlant siarad yr iaith. Rwy'n teimlo y bydd buddsoddi yn yr ysgol yn annog mwy o rieni i wneud yr un fath.

Mae'n rhaid ystyried yn ddwys dyfodol y trefniant presennol o 3 ysgol gynradd ar un safle nesaf at ysgol uwchradd gyda'r holl ysgolion hynny'n llawn. Hoffwn weld blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ysgol cyfrwng Cymraeg gan ei bod yn tyfu a thyfu ar raddfa sylweddol. Yn ddelfrydol, hoffwn weld ysgol Gymraeg newydd ar safle newydd gyda'r sir yn dangos ymrwymiad i ddatblygu adnoddau'r ysgol Gymraeg.

Mae mwy a mwy o blant yn ymddangos yn ysgol Gymraeg Ysgol Glan Morfa bob blwyddyn, ac os bydd rhaid iddynt adeiladu mwy yn y dyfodol, bydd y plant yn colli rhagor o'r cae chwarae. Mae'n bryd i'r ysgol Gymraeg i gael mwy o chwarae teg ac mae'n bwysig cadw ysgol Gymraeg yma yn Abergele. Nid wyf yn awgrymu fod cymysgu plant cynradd ac uwchradd mewn unrhyw ysgol yn syniad da.

Diolch i bawb a gymerodd ran ac am ychwanegu i'r broses.